PWYLLGOR PENODI

DYDD MAWRTH, 6 MAWRTH 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Huw Thomas(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Boyle, Elsmore, McGarry a/ac Dianne Rees |

1 : YMDDIHEURIADAU (OS OES UNRHYW RAI)

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

2 : DATGAN BUDDIANNAU

Nid oedd unrhyw ddatganiadau buddiannau yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau.

3 : CYLCH GORCHWYL

Nodwyd y Cylch Gorchwyl fel a ganlyn:

*"Cyflawni swyddogaethau'r awdurdod mewn perthynas â phenodi a diswyddo Prif Swyddogion a Dirprwy Brif Swyddogion (fel y'u diffinnir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Gorchmynion Sefydlog) (Cymru) 2006) a Phennaeth statudol y Gwasanaethau Democrataidd, yn unol â Rheolau Gweithdrefnau Cyflogaeth ac unrhyw bolisïau a gweithdrefnau perthnasol eraill y Cyngor".*

4 : COFNODION

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2018 fel cofnod cywir.

5 : EITHRO'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD: Y dylid gwahardd y cyhoedd yn ystod y drafodaeth ynglŷn â'r eitem fusnes ganlynol ar y sail y datgelid gwybodaeth a eithrir, fel y'i diffinnir yn Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac fel y'i diffinnir isod, i aelodau'r cyhoedd pe byddent yn bresennol yn ystod y drafodaeth, oherwydd natur y busnes i'w drafod.

Paragraff 12 – Gwybodaeth sy'n ymwneud ag ymgeisydd yn dod yn gyflogai i'r awdurdod; a

Pharagraff 13 – Gwybodaeth a oedd yn debygol o ddatgelu pwy oedd unigolyn.

6 : PENODI CYFARWYDDWR Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Cafodd y Pwyllgor Penodi ar gyfer swydd Cyfarwyddwr Cynorthwyol Addysg ei ailgynnull ar 20 Chwefror 2018 i dderbyn ac ystyried canfyddiadau'r Ganolfan Asesu.

Cyflwynodd Mandy Pigny, yr Aseswr Arweiniol Allanol, ganfyddiadau'r ymgeiswyr yn sgîl ymarferion y Ganolfan Asesu a sgoriwyd yn erbyn cymwyseddau ymddygiadol y rôl.  Ystyriodd y pwyllgor, ar sail y meini prawf hanfodol, y canlyniadau asesu a

ffurflenni cais gwreiddiol yr ymgeiswyr, ba ymgeiswyr y dylid eu gwahodd i gyfweliad ffurfiol.

PENDERFYNWYD –

1. Gwahodd ymgeiswyr 1, 3 a 5 i gyfweliad.

2. Hysbysu'r ymgeiswyr am y testun sydd wedi'i ddewis ar gyfer y cyflwyniad ac y caniateir uchafswm o 10 munud ar gyfer hwnnw;

3. Llunio'r cwestiynau terfynol ar gyfer y pwyllgor cyfweld.

7 : DISWYDDO (OS OES ANGEN)

Nid oedd angen unrhyw ddiswyddo dilynol fel rhan o'r broses creu rhestr fer.

8 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Trefnwyd y cyfarfod nesaf ar gyfer dydd Mercher 21 Mawrth 2018.